

BUDDION PŴER SOLAR

Pŵer solar yw'r ffynhonnell ynni newydd sy'n tyfu gyflymaf yn y byd gan fod iddi botensial o allu ateb llawer o'r heriau a wynebir heddiw mewn perthynas â bod yn garbon isel. Mae'n dod yn fwy poblogaidd am ei fod yn gystadleuol o ran cost, yn hyblyg, yn gyflym i'w ddefnyddio ac yn garedig tuag at ein hamgylchedd.



Adnewyddadwy

Cynhyrchir trydan gan baneli solar drwy drawsnewid y llif parhaus o ynni o'r haul yn drydan.



Dim CO₂

Ni chaiff unrhyw allyriadau niweidiol eu rhyddhau i'r aer pan fo'r trydan yn cael ei gynhyrchu.



Cyflym i'w ddefnyddio

O'i gymharu â gorsafoedd niwclear neu lo sy'n gallu cymryd degawdau i'w datblygu, mae modd defnyddio ffermydd solar yn gymharol gyflym, gan fod y gwaith adeiladu'n cymryd misoedd yn hytrach na blynnyddoedd.



Pontio'r bwlch ynni

O'i gymharu â gweithfeydd pŵer traddodiadol, mae gosodiadau solar yn gyflym i'w defnyddio a gallant fod yn weithredol mewn ychydig fisoedd.



Wedi eu cynllunio i osgoi niwed i'r tir

Mae ôl-troed gosodiad solar yn gymharol fyr, ac mae'n hawdd cael gwared ar y seilwaith ar ddiwedd ei oes – nid llawer o fathau eraill o 'orsafoedd pŵer' all ddweud hynny! Gellir tynnu'r fframiau a osodwyd â stanciwr allan a gellir cael gwared ag unrhyw goncrid a graean yn hawdd heb unrhyw ddifrod i ansawdd y pridd. Byddwn wedyn yn ôl-lenwi unrhyw bantiau ac yn ail-hadu lle bo angen.



Parhad defnydd amaethyddol

Mae oddeutu 70% o osodiad solar yn laswelltir agored. Os yw'n briodol, gellir dal i ddefnyddio tir amaethyddol gyda da byw llai megis ieir neu bori defaid. Anaml iawn yr effeithir ar ddwysedd stocio.

BUDDION PŴER SOLAR

Pŵer solar yw'r ffynhonnell ynni newydd sy'n tyfu gyflymaf yn y byd gan fod iddi botensial o allu ateb llawer o'r heriau a wynebir heddiw mewn perthynas â bod yn garbon isel. Mae'n dod yn fwy poblogaidd am ei fod yn gystadleuol o ran cost, yn hyblyg, yn gyflym i'w ddefnyddio ac yn garedig tuag at ein hamgylchedd.



Ychydig iawn o Sŵn

Ni chynhyrchir llawer o sŵn wrth weithredu



Hwb i Fioamrywiaeth

Cyfleoedd i wella fflora a ffawna



Cynhyrchu Lleol a Glân

Gostwng yr ôl troed carbon lleol



Hwb i fioamrywiaeth

Daeth Adroddiad Asesu Byd Eang IPBES y Cenhedloedd Unedig ar Wasanaethau Bioamrywiaeth ac Ecosystemau (Mai 2019) i'r casgliad bod natur yn dirywio'n fyd eang, ar raddfa nas gwelwyd ei thebyg erioed yn hanes dynoliaeth, gyda'r cynnydd yng nghyflymder difodiant rhywogaethau. Mae ein cynlluniau wedi creu cyfleoedd i wella cynefinoedd a chynorthwyo fflora a ffawna lleol.

Cefnogi Busnesau Gwledig

Profwyd bod arallgyfeirio tir fferm gyda solar yn ateb da er mwyn cefnogi busnesau gwledig. Mae'n darparu incwm diogel a chynaliadwy yn ogystal â diogelwch rhag anwadalwch y farchnad a'r tywydd.

Pam gosod paneli solar ar y ddaear?

Mae'r rhan fwyaf o'n prosiectau wedi eu gosod ar y ddaear. Mae nifer o sialensiau anorchfygol i gosodiadau solar to yn aml, gan gynnwys problemau strwythurol, asbestos a chysgod, yn ogystal ag anawsterau cysylltiedig â chynnal a chadw'r to a chymhlethdodau cyfreithiol. Mae ffermydd solar a osodir ar y ddaear yn ffordd fwy effeithlon o gyrraedd ein targedau ynni carbon isel.